# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10 Ebrill 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32402** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Goleuadau Stryd** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo ceisio arian o gronfa Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru er mwyn gwireddu cynllun i newid gweddill goleuadau stryd y Cyngor i dechnoleg LED.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet os am wireddu'r cynllun buddsoddi i arbed hwn.

### 3. CYFLWYNIAD

Mae gan y Cyngor 18,057 o Oleuadau Stryd. Erbyn mis Medi 2018 bydd 10,279 ohonynt wedi eu newid i dechnoleg LED er mwyn sicrhau gostyngiad mewn allyriadau carbon o 414 tunnell o $CO_2$ i'r Cyngor, lleihau llygredd goleuo a chyflawni arbedion o £260k y flwyddyn mewn costau ynni. Mae'r cynllun 4 mlynedd, £1.4 miliwn presennol yn cael ei ariannu drwy ddefnydd cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru, sef cyllid ad-daladwy di-log.

Yr ydym nawr yn awyddus i newid gweddill o'r goleuadau stryd, sef 7778 mewn nifer, i dechnoleg LED. Mae y rhain yn oleuadau sydd yn fwy pwerus ac yn defnyddio mwy o ynni na'r goleuadau yn y cynllun presennol. Dyma'r math o oleuadau sydd ar ein prif ffyrdd, canol trefi ac ar gyffyrdd prysur. Mae'r dechnoleg LED nawr ar gael ar gyfer y goleuadau cryfach hyn ac am brisiau fwy rhesymol erbyn hyn.

Y bwriad gyda'r cynllun newydd hwn yw i ddefnyddio £1,398,795 o fuddsoddiad o gronfa Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru i newid 7778 o oleuadau stryd i dechnoleg LED (sydd yn pylu) yn y 3 blynedd rhwng Ebrill 2019 a mis Mawrth 2022.

Ar gyflawni'r newid, bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i sicrhau gostyngiad mewn allyriadau carbon o 572 tunnell o $CO_2$, lleihau llygredd goleuo a chyflawni arbedion pellach o £185k y flwyddyn mewn costau ynni.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae manteision o ran yr amgylchedd ac ariannol o wireddu'r cynllun hwn.

Mae'r benthyciad ariannol o'r Gronfa Twf Gwyrdd gan Lywodraeth Cymru i'w ad-dalu yn ddi-log dros gyfnod o 7.5 mlynedd. Mae'r cais (yr achos busnes) yn cael ei asesu ar hyn o bryd gan gwmni SALIX ar ran Llywodraeth Cymru. Pe byddai'r cais yn llwyddiannus, yna mae derbyn y cynnig o ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet.

Yn amlwg, dan yr amgylchiadau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, byddai cyflawni'r arbedion sy'n deillio o'r Cynllun hwn ynghynt o fantais i'r Cyngor, a bydd angen rhoddi ystyriaeth bellach ar sut i gyflawni hyn wrth i'r cynllun ddatblygu.

Tra'n derbyn y benthyciad, bydd y Cyngor yn cadw'r hyblygrwydd i'w gyfnewid am arian mewnol er mwyn gallu gwireddu'r arbedion yn gynharach.

Bydd y Cynllun yn cyfrannu tuag at amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran:

(i) Cymru Lewyrchus – mae budd ariannol o leihau defnydd o ynni. Defnyddir y fframwaith cenedlaethol (Cymru) ar gyfer caffael yr offer goleuo a gweithlu mewnol Cyngor Gwynedd (cyflogaeth leol) fydd yn cyflawni'r gwaith.
(ii) Cymru Gydnerth – trwy leihau defnydd ynni ac allyriadau carbon bydd yn cyfrannu tuag at atal newid hinsawdd.
(iii) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - lleihad mewn defnydd ynni ac allyriadau carbon fydd yn golygu llai o effaith o safbwynt newid hinsawdd.

Ni ragwelir y byddai gwireddu'r cynllun hwn gydag effaith o ran pobl a nodweddion sydd i'w gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Dyma'r rhaglen fwriedir ar gyfer y cynllun:

| | | |
|---|---|---|
| (i) | SALIX i ystyried y cais a'r achos busnes ar ran Llywodraeth Cymru | Mawrth 2018 |
| (ii) | Pe byddai cynnig gan Lywodraeth Cymru, y Cabinet i gymeradwyo derbyn y cynnig o ariannu di-log | Ebrill 2018 |
| (iii) | Dylunio'r goleuadau newydd ac archebu'r offer | Ebrill 2018 – Mawrth 2019 |
| (iv) | Cychwyn ar y gwaith 3 blynedd o newid y goleuadau i rai LED sy'n pylu | Ebrill 2019 |
| (v) | Cwblhau'r newid | Mawrth 2022 |

## 6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n cefnogi'r bwriad i geisio am arian o gronfa Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Rhoddir ystyriaeth ddilynol i drefn fyddai'n cyflawni'r arbedion ynghynt.

**Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.